

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**Cofnodion** o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 21 Mehefin 2017 am 5pm

### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Tegg - Maer

### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol**

L.M.Adams	D.Grehan	D.Owen-Jones
D.R.Bevan	M.Griffiths	S.Pickering
J.Bonetto	J.Harries	S.Powderhill
S.A.Bradwick	G.Holmes	S.M.Powell
J.Brencher	L.Hooper	S.Rees
A.Calvert	G.E.Hopkins	S.Rees-Owen
G.Caple	P.Howe	A.Roberts
A.Chapman	G.W.Hughes	J.Rosser
A.G.Cox	J.James	R.W.Smith
A.Crimmings	P.Jarman	G.Stacey
J.L.Cullwick	G.Jones	E.S.Stephens
G.R.Davies	K.L.Jones	G.Thomas
J.R.Davies	W.Jones	W.Treeby
A.Davies-Jones	R.Lewis	L.G.Walker
L.De Vet	W.Lewis	M.O.Weaver
J.Elliott	C.Leyshon	E.Webster
S.Evans	D.Macey	G.D.G.Williams
M.Fidler Jones	A.Morgan	D.H.Williams
M.Forey	S.Morgans	J.Williams
A.S.Fox	M.A.Norris	T.Williams
E.George	W.Owen	R.Yeo

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr.C.Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr.C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr.G.Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau  
i Blant

Mr.C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr.T.Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr.C.Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Ms.K.May – Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

### **Swyddfa Archwilio Cymru**

Mr.Colin Davies a Ms.Justine Morgan

## **20 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol H.Boggis, M.Diamond, S.M.Evans-Fear, H.Fychan, L.Jones, K.Morgan, M.J.Powell, R.K.Turner, M.Webber a C.J.Willis.

## **21 DATGAN BUDDIANT**

**PENDERFYNWYD** – nodi, yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, i Gynghorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 6(b) - Cwestiynau Aelodau - "Mae gen i aelod o'r teulu sy'n gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol".

## **22 CYHOEDDIADAU**

(1) Hysbyswyd yr Aelodau gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus nad oedd y cyfarpar cyfieithu yn gyfaddas i'r system dolen sain, yn dilyn cynnal profion o'r system yn gynharach heddiw, ac felly, fyddai gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ddim yn cael ei ddarparu. Mae rhywun yn ceisio datrys y broblem er mwyn sicrhau y bydd y cyfleuster ar gael mewn cyfarfodydd Cyngor yn y dyfodol.

(2) Gofynnodd y Maer i'r Aelodau sefyll fel arwydd o barch tuag at y rheiny a fu farw o ganlyniad i'r tân yn Nhŵr Grenfell, Kensington, Llundain.

Hysbysodd hi'r Aelodau y bu farw'r Cyn-gynghorydd Shah Imtiaz.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion am funud o dawelwch fel arwydd o barch.

(3) Tynnodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P.Jarman sylw'r Cyngor at dalentau a llwyddiannau eithriadol Gwynfor Dafydd, sef myfyriwr pedair ar bymtheg oed o Donyrefail sy'n siarad pedair iaith, sy'n fab i'r Cynghorydd Danny Grehan ac sydd ar hyn o bryd yn astudio'r Sbaeneg a'r Almaeneg yng Ngholeg yr Iesu, Caergrawnt, ac iddo ennill y Gadair fawreddog yn Eisteddfod yr Urdd Pencoed eleni. Yn ogystal â hynny, enillodd Gwynfor Dafydd y Gadair yn Eisteddfod yr Urdd y Fflint y llynedd, ac yntau'r enillydd ieuengaf erioed.

Ychwanegodd y Cynghorydd Jarman i lwyddiant Gwynfor yn fardd ddechrau pan oedd e'n ddisgybl yn Ysgol Llanhari lle enillodd e Gadair yr ysgol bedair gwaith yn olynol, a Chadair Prifysgol Bangor wedi hynny. Fe oedd y bardd (o dan 25 oed) gorau yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg ac yng nghystadleuaeth barddoniaeth genedlaethol Cymorth Cristnogol. Yn ogystal â hynny, fe gyfansoddodd y Cywydd Croeso ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Pencoed.

Enillodd Gwynfor Gadair yr Eisteddfod eleni am gyfansoddi cerdd o'r enw "Yr Arwr". Ysbrydolwyd y gerdd gan "I Daniel Blake", sef y ffilm ddiamwys a gonest gan y gwneuthurwr ffilmiau enwog sy'n ymdrin â materion

cymdeithasol, Ken Loach.

Mae Gwynfor wedi bod yn perfformio mewn Eisteddfodau ers iddo fod yn ifanc iawn ac mae e wedi cael llwyddiant wrth gynrychioli Ysgol Gymraeg Tonyrefail, Ysgol Llanhari ac Adran Bro Taf ar lwyfan yr Eisteddfod mewn cystadlaethau adrodd, dawnsio a cherdd, yn ogystal â rhai barddoni.

Yn dilyn cyhoeddiad y Cynghorydd Jarman, rhoddodd yr Aelodau eu llongyfarchiadau i Gwynfor a mynegodd y Maer y byddai'n estyn gwahoddiad iddo i Barlwr y Maer yn y dyfodol agos er mwyn i'w gyflawniad eithriadol fel ysgolhaig llenyddol gael ei gydnabod ymhellach.

## **23** **DEISEBAU**

Rhoddodd yr Aelodau canlynol y deisebau isod i'r Maer:

- (1) Gan Gynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Harries ar ran trigolion Maerdy Road, Y Maerdy yn gofyn i'r Cyngor atgyweirio'r palmant rhwng lleoliad hen westy'r Maerdy a Chapel Seion.
- (2) Gan Gynghorydd Bwrdeistref Sirol D.H.Williams ar ran trigolion Clydach Close, Glyn-coch yn gofyn i'r Cyngor edrych ar y problemau traffig - cerbydau dosbarthu a sbwriel yn gorfod defnyddio'r pafin oherwydd lled y ffordd, a rhieni a staff sy'n defnyddio'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn y Ganolfan Gymunedol.
- (3) Gan Gynghorydd Bwrdeistref Sirol P.Howe ar ran trigolion Glynrhedynog ynglŷn â cherbydau yn teithio'n rhy gyflym ar hyd Rhondda Road, Glynrhedynog - maen nhw'n gofyn i'r Cyngor (a'i bartneriaid) edrych i mewn i'r mater yma gyda'r posibilrwydd o osod twmpathau arafu neu gamerâu cyflymder yn yr ardal.

## **24** **COFNODION**

**PENDERFYNWYD** - cymeradwyo (yn gofnod cywir) cofnodion Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2017, yn amodol ar Gofnod Rhif 13 (13) yn nodi y bydd taliadau i'r Maer a'r Dirprwy Faer yn dod i rym o ddyddiad Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor, hynny yw, 17 Mai 2017.

## **25** **DATGANIADAU**

- (1) Hysbysodd Arweinydd y Cyngor yr Aelodau o ofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl ac adrodd ar y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Heddlu a'r Cyngor i sicrhau bod cynlluniau ar gyfer argyfwng yn eu lle os digwydd trychinebau annisgwyl. Roedd yr Arweinydd yn awyddus i gofnodi diolchiadau'r Cyngor i'r Awdurdodau Tân a Heddlu am y gwaith eithriadol a wnaed yn sgîl y trychinebau terfysgaeth a Thŵr Grenfell diweddar. Anogodd e'r Aelodau

hefyd i ymgymryd â'r hyfforddiant Cynllunio ar gyfer Argyfyngau sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor bob blwyddyn.

- (2) Hysbysodd Arweinydd y Cyngor yr Aelodau y bydd Ffordd Mynydd y Maerdy yn cael ei chau o 10 Gorffennaf ymlaen a thrwy gydol gwyliau'r ysgol er mwyn cynnal gwaith tirlithriad fydd yn cynnwys sefydlogi, atgyweirio waliau cynnal o gerrig, draenio (gan gynnwys atal llifogydd), rhwystrau damweiniau (tynnu a gosod), gosod wyneb newydd ar y ffordd o un cwm i'r llall. Bydd y gwaith yma yn cychwyn ar 10 Gorffennaf, 2017 a bydd y ffordd ar gau drwy gydol gwyliau'r ysgol. Mae'r gwaith yma wedi cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru o dan grant Diogelwch y Ffyrdd.
- (3) Dywedodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan, Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai bod y Cyngor wedi ceisio sicrwydd gan y Landlordiaid Cymdeithasol sy'n gweithredu yn Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â mesurau a gweithdrefnau diogelu rhag tân. Cadarnhaodd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a oedd wedi ymateb eisoes fod asesiadau risg tân wedi cael eu cynnal a'u bod nhw i gyd yn gyfredol. Roedden nhw hefyd wedi cadarnhau nad oedden nhw wedi defnyddio'r system gorchuddio PE a ddefnyddiwyd ar Dŵr Grenfell. Roedd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ymchwilio ymhellach i ddiogelwch y cynhyrchion sydd wedi cael eu defnyddio ar eu heiddo er mwyn rhoi sicrwydd i'w tenantiaid.

Ychwanegodd y Cyngorydd Bevan fod Arweinydd y Cyngor wedi cysylltu â Trivallis yn uniongyrchol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gwneud popeth o fewn eu gallu i roi sicrwydd i'w preswylwyr. Bydd adroddiad brys mewn perthynas â'r mater yma yn cael ei drafod gan y Cabinet yn ei gyfarfod a fydd yn cael ei gynnal yma yfory (22 Mehefin, 2017), ac yn ogystal â thrafod yr adroddiad yma yn y Cabinet, bydd y mater yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Craff priodol.

- (4) Adroddodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Crimmings, Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Diwylliant a Hamdden, ar y cynnydd cadarnhaol sy'n cael ei wneud o ran buddsoddi yn y gwasanaeth hamdden. Mae meysydd 3G wedi cael eu gosod mewn sawl ardal yn Rhondda Cynon Taf ac mae gwelliannau wedi cael eu gwneud yn y Canolfannau Hamdden, a daeth rhagor o bobl yn aelodau yn sgîl hynny. Roedd hi'n awyddus i roi diolch i Swyddogion Adran Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata'r Cyngor am helpu i gyflawni'r cynnydd mewn aelodaeth.

## **26 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

- (a) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Cullwick i Arweinydd y Cyngor (Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan)**

"A fydddech chi'n fodlon gwneud datganiad ar y cynlluniau arafu traffig a'u heffaith ledled y Cyngor?"

### **Ymateb gan y Cyngorydd A.Morgan**

"Rydyn ni'n manteisio ar ffynonellau amrywiol o gyllid grant. Gall arafu traffig fod ar sawl ffurf ac mae'n un o'r dulliau amrywiol sydd ar gael i'r Cyngor y mae'n bosibl eu defnyddio i helpu i gyflawni nodau'r fframwaith Diogelwch y Ffyrdd. Yn ôl ymchwil gan yr Adran Drafndiaeth, mesurau megis twmpathau, rhwystrau gosod ac ati yw'r dulliau mwyaf effeithiol o leihau cyflymder y cerbydau mewn ardaloedd trefol. Oherwydd hynny, mae'r Cyngor yn aml yn cynnig y defnydd o fesurau o'r fath mewn lleoliadau lle mae hanes o wrthdrawiadau sy'n gysylltiedig â chyflymder ac sy'n arwain at anafiadau. Mae grantiau ar gael ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd â risgiau uwch. Rydyn ni hefyd yn defnyddio rhai o'n hadnoddau ein hunain - oddeutu £200,000.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at lwybrau a chymunedau diogel a'r berthynas/cysylltiad ag ysgolion".

### **Cwestiwn Ategol gan y Cyngorydd J.Cullwick**

"Oes modd i ni gael terfynau 20 mya y tu allan i bob ysgol?"

### **Ymateb gan y Cyngorydd A.Morgan**

"Rydyn ni wedi ystyried hyn ac mae modd i ni gael terfynau cyflymder newidiol - mae Broadway yn un enghraifft. Rhaid i chi gael yr arwyddion angenrheidiol i ddangos y terfynau gwahanol. Os ydych chi'n cael parth 20 mya, rhaid gosod system arafu traffig. Mae pob Gorchymyn Traffig unigol yn costio oddeutu £5,000. Mae'r Cyngor bob amser yn ymchwilio i ffyrdd o gael mynediad at ffrydiau amrywiol o gyllid i helpu gyda chynlluniau o'r fath. Dydw i ddim yn erbyn yr hyn rydych chi'n ei awgrymu ond rydw i angen cyflwyno'r rhaglen yn raddol".

(b) **Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G.R.Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant (Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G.Hopkins)**

"A wnewch chi roi datganiad ar Wasanaethau Gofal Cartref?"

### **Ymateb gan y Cyngorydd G.Hopkins**

"Mae Gwasanaethau Gofal Cartref yn Rhondda Cynon Taf yn cael eu darparu gan garfan fewnol a chan nifer o ddarparwyr sector preifat annibynnol, sydd wedi ennill contractau gan y Cyngor. Mae pob gwasanaeth yn darparu cymorth ymarferol a gofal personol i bobl (y mae eu hanghenion wedi'u hasesu) er mwyn eu cefnogi yn eu dewis i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi. Yn ogystal â hynny, mae carfan fewnol y Cyngor yn darparu gwasanaeth gofal arbenigol canolraddol ac ail-alluogi.

Ar gyfartaledd, mae dros 17,200 o oriau o gymorth (gan gynnwys ail-alluogi) yn cael eu darparu bob wythnos i oedolion ledled Rhondda Cynon Taf".

### **Cwestiwn Ategol gan y Cyngorydd G.R.Davies**

"Rydw i wedi cael nifer o gwynion ynglŷn â Chynhalwyr (Gofalwyr) yn methu â chyrraedd i ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae hyn yn annerbyniol gan nad yw'r bobl yn cael y gofal y dylen nhw ei gael ac ambell waith, dydyn nhw ddim yn cael y feddyginiaeth y dylen nhw ei chael ar yr amser priodol. Maen nhw'n newid y Cynhalwyr (Gofalwyr) yn aml ac mae hyn yn achosi dryswch i'r henoed, yn arbennig y bobl sy'n dioddef o dementia. Ydych chi'n fodlon ar y sefyllfa ar hyn o bryd? Dydw i ddim yn beirniadu Cynhalwyr unigol - yn aml, maen nhw ar gontractau dim oriau a does dim llawer o amser gyda nhw i wneud eu gwaith a mynd o dŷ i dŷ. Dyna'r ffordd mae'n cael ei drefnu ac nid bai y Cynhalwyr yw e.

### **Ymateb gan y Cyngorydd G.Hopkins**

"Dydw i ddim yn fodlon ar unrhyw achos lle mae rhywun wedi colli galwad ac y dylai rhywun fod wedi bod yno; mae pob achos yn bwysig i'r person a dydy hyn ddim yn dderbyniol i ni. Rydyn ni'n cynnal cyfarfodydd gyda'r darparwyr ac rydyn ni'n trafod cwynion gyda nhw. Mae yna ychydig iawn o gwynion – yn ffodus, mae nifer yr achosion o golli galwad neu alwadau hwyr yn fach iawn. Rydyn ni'n disgwyl safonau uchel iawn a byddwn ni'n trafod y rhain gyda'r Darparwr. Os oes unrhyw gwynion unigol gyda chi, dewch â nhw at fy sylw neu ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno'r Cyngor.

O ran meddyginiaeth, mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r asiantaethau a'r Fferyllwyr amrywiol a'r Bwrdd Iechyd".

(c) **Gan Gyngorydd Bwrdeistref Sirol E.Webster i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol (Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.A.Norris)**

"A fydddech mor garedig â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf imi am gynnydd / llwyddiant y broses o gyflwyno WiFi am ddim i'r cyhoedd ym mhob ardal gyhoeddus yn adeiladau'r Cyngor?"

### **Ymateb gan y Cyngorydd M.A.Norris**

Er mwyn gwireddu ein delfryd digidol, yn gyntaf, rydyn ni angen seilwaith digidol cynaliadwy. Mae angen iddo fod yn hyblyg ac addasadwy er mwyn ymateb i anghenion newidiol ein trigolion, busnesau, disgyblion/myfyrwyr, gweithwyr ac ymwelwyr.

Oherwydd bod y defnydd o dechnoleg yn cynyddu yn y gymdeithas, mae cysylltedd yn hanfodol ar gyfer cefnogi anghenion trigolion ac aelodau o staff o ddydd i ddydd.

Yn rhan o'n gwelliannau digidol, rydyn ni wedi gosod Wi-Fi (sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac aelodau o staff) yn swyddfeydd y Cyngor ledled yr awdurdod a byddwn ni'n parhau i ychwanegu at y rhwydwaith yn y dyfodol.

Fel rheol, mae gyda ni ddau fath ar Wi-Fi sef 'di-wifi' a cwmwl SKY

Mae'r Wi-Fi corfforaethol yn galluogi aelodau o staff RhCT (e.e. Gweithwyr Cymdeithasol) i gyrchu o bell unrhyw adnoddau megis ffeiliau, ffolderi a gyriannau sydd ar gael iddyn nhw, fel pe baen nhw'n eistedd wrth eu desgiau. Mae Wi-Fi corfforaethol yn wahanol i'r Wi-Fi ar gyfer y cyhoedd oherwydd bod caniatad yn cael ei roi i ddefnyddwyr a dyfeisiau penodol yn unig (e.e. gliniaduron/llechi/ffonau) sydd wedi'u cofrestru gyda rhwydwaith y Cyngor - does dim modd cyrchu'r Wi-Fi corfforaethol heb enw defnyddiwr a chyfrinair corfforaethol a chofrestriad dyfais wedi'i gyflenwi gan TGCh. Mae rheolaeth a mynediad yn nwylo'r Cyngor ac yn ddarostyngedig i'r holl reolaethau diogelwch safonol.

Mae Wi-Fi cwmwl SKY ar gyfer y cyhoedd ar gael yn nifer o'r safleoedd, gan gynnwys Theatr y Parc a'r Dâr a Llyfrgell Treorci. Mae modd i unrhyw un ei ddefnyddio, h.y. Swyddog neu aelod o'r cyhoedd, lle mynediad i'r rhyngwyd yw'r unig ofyniad. Mae modd cyrchu SKY Wi-Fi gan unrhyw un sy'n cofrestru fel defnyddiwr SKY a thrwy unrhyw ddyfais sy'n caniatáu defnyddio'r rhyngwyd.

Mae Wi-Fi cwmwl SKY yn gofyn bod defnyddwyr yn cofrestru dyfais *unwaith* - yn dilyn hyn, bydd cysylltiad yn cael ei sefydlu yn awtomatig pan fydd y ddyfais benodol yma o fewn y pellter cywir, ym mhob safle sydd â'r cyfleuster yma. Mae rheolaeth a mynediad yn nwylo SKY Cloud. Mae cynnwys y Cloud yn cael ei reoli ac mae'n defnyddio system hidlo safonol y diwydiant sydd wedi'i chyflunio i restr atal Sefydliad Gwylio'r Rhyngwyd.

### **Cwestiwn ategol gan y Cyngorydd E.Webster**

"Rwy'n croesawu'r ddarpariaeth WiFi am ddim yn arbennig yng nghanol y trefi. Bydd adroddiad yn cael ei drafod gan y Cabinet yfory mewn perthynas â RhCT Digidol `Ein Gweledigaeth Ddigidol 2020'. Hoffwn i gael sicrwydd y bydd Treorci yn cael ei nodi?"

### **Ymateb gan y Cyngorydd M.A.Norris**

"Rhan o'n manifest oedd cyflwyno WiFi i ganol y trefi a byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau y bydd argaeledd a band eang cyflym iawn yn cael eu gwella er mwyn sicrhau bod ardaloedd penodol yn cael gwell gwasanaeth. Mae yna strategaeth ddigidol sy'n mynd i'r Cabinet ac rydyn ni'n bwriadu cynnal cynlluniau arbrofol mewn rhai canol trefi i weld yr hyn fydd yn gweddu i bob ardal a'r hyn sy'n gweithio'n dda. Treorci fydd un o'r trefi yma.

## **27 ADRODDIADAU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Adroddodd y Prif Weithredwr fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymgymryd â nifer o brosiectau yn rhan o Archwiliad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol

2016/17, a hynny er mwyn eu galluogi i lunio barn ar gadernid effeithiolrwydd corfforaethol y Cyngor.

Yn ystod y cyfnod o bedwar mis hyd at fis Mehefin, 2017, cafodd yr adroddiadau canlynol eu cyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru a chael eu hatodi i adroddiad y Prif Weithredwr yn Atodiadau 1-5 :-

- Yr Adroddiad Gwella Blynyddol 2016/17;
- Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau corfforaethol wedi'i seilio ar risg; gwelliannau a chyflawniad;
- Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau corfforaethol wedi'i seilio ar risg; cydweithredu a phartneriaethau;
- Cynllunio Arbedion; ac
- Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau corfforaethol wedi'i seilio ar risg; cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau

Adroddodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiadau uchod yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu'r ffaith fod gan y Cyngor drefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer cyllid, gwasanaethau a rheoli cyflawniad. Serch hynny, roedd cyfleoedd i wella'r trefniadau yma ac roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella ar draws yr adroddiadau. Dywedodd fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella, ac y bydd y cynnydd perthnasol sy'n cael ei wneud yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio maes o law.

Derbyniodd yr Aelodau Mr. Colin Davies o Swyddfa Archwilio Cymru a roddodd ei sylwadau ar yr adroddiadau uchod ac yn arbennig Adroddiad Gwella Blynyddol 2016/17 lle dywedodd fod y Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus ac yn seiliedig ar y gwaith (ac yn gyfyngedig iddo) a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017/18.

Adroddodd Mr. Davies am y cynigion ar gyfer gwella a oedd wedi cael eu gwneud ac a fyddai'n cael eu monitro gan Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan o'u gwaith asesu gwelliant.

Cyfeiriodd Mr. Davies y Cyngor at Atodiad 3 i'r Adroddiad Gwella Blynyddol yng nghyswllt argymhellion adroddiad cenedlaethol a gofynnodd bod y rhain yn cael eu hystyried gan y gallai fod rhywfaint o effaith ar RhCT.

Yn dilyn sylwadau a wnaed gan Mr. Davies, cafwyd trafodaeth hir a **PHENDERFYNWYD** - nodi cynnwys adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a bod y cynigion ar gyfer gwella a'r cynnydd perthnasol a wnaed i gael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio perthnasol a'r Pwyllgor(au) Craffu priodol, os teimlir bod hyn yn gymwys.



Yn unol â Chofnod Rhif 2(2.2) o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2017, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol wrth yr Aelodau ei fod wedi derbyn hysbysiad gan y Grŵp Llafur ynglŷn â newid i'w aelodaeth o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, a **PHENDERFYNWYD** - y byddai'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S.Powell yn cymryd lle'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol C.J.Willis ar y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.

## **29 TYNNU RHYBUDD O GYNNIG BRYD YN ÔL**

**PENDERFYNWYD** - nodi bod y Rhybudd o Gynnig Brys a gyflwynwyd yn unol â pharagraffau 10.5.1 - 10.5.4 o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, E.Webster, S.Rees-Owen, M.Weaver, W.Jones, A.Chapman, S.Evans-Fear, D.Grehan, K.Morgan, J.Williams, A.Cox, D.Macey, H.Fychan, J.Davies, J.Cullwick, L.Jones ac E.Stephens wedi eu tynnu'n ôl gan yr Aelodau a grybwyllwyd. Y rheswm dros ei dynnu'n ôl - "*y datganiad Gweinidogaethol a wnaed ddoe (20 Mehefin) gan Carl Sergeant a oedd yn rhoi sicrwydd ar lefel genedlaethol ynghylch system gorchuddio adeiladau a sefydlu Tasglu Proffesiynol Cymru Gyfan*".

**M.TEGG  
MAER**

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.43pm.**

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor